




Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Addysg
a Dysgu Gydol Oes

**Adroddiad Terfynol:**

# Gosod y Sylfaen: Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar i Blant Teirblwydd



ISBN 0 7504 2597 0 Chwefror 2001 © Hawlfraint y Goron 2001

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Addysg
a Dysgu Gydol Oes

## Adroddiad Terfynol:

# Gosod y Sylfaen: Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar i Blant Teirblwydd

Lluniwyd a dyluniwyd gan
Uned Graffeg,
CartoGraffeg,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cysodwyd gan y Gwasanaethau Prosesu
Testun
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon gan:

Gareth Woodhead
Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: (029) 2089 8618
Ffacs: (029) 2089 8021
E-bost: gareth.woodhead@wales.gsi.gov.uk



# Rhagair

Dechreuodd y Pwyllgor Addysg Cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar yr adolygiad hwn ac fe'i cwblhawyd gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Mae'r adolygiad yn un pwysig gan ei fod yn edrych ar y modd y mae'r aelodau ieuengaf yn ein cymuned yn cychwyn eu haddysg. Mae'n rhaid i'w profiadau dysgu cyntaf fod yn rhai hapus. Mae hyn yn holl bwysig oherwydd bydd yn effeithio ar sawl agwedd ar eu dyfodol. Mae'r hyn y mae plant yn ei ddysgu yn rhywbeth sy'n atodol i'r profiad hanfodol hwnnw ac mae'n rhaid i ni fel oedolion ysgwyddo cyfrifoldeb dros hyn. Mae'n bwysig ein bod yn creu amgylchedd sy'n cynnig cymaint o brofiadau ag y bo modd i blant ac sy'n caniatáu iddynt archwilio'r profiadau hynny gyda chefnogaeth ac anogaeth.

Mae gennym ddiwylliant cryf a bywiog yng Nghymru, ac mae'n rhaid i ni fanteisio ar hyn wrth ddatblygu ein plant, ein dyfodol, yn bobl ifanc hyderus, gwybodus a medrus. Bydd y cychwyn a roddir iddynt yn eu helpu i fod yn rhan allweddol o'n cymunedau yn y dyfodol.

Dylid ystyried y strategaeth hon yn rhan o gontinwwm addysg. Mae'n dechrau pan fydd plentyn yn cael ei eni ac yn parhau trwy gydol ei fywyd. Mae'n rhaid iddi fod yn rhan hanfodol o ddarpariaeth gofal plant ac addysg i blant rhwng 0 a chwech oed. Cefnogodd y Pwyllgor Addysg Cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar gynnig yr Ysgrifennydd Addysg ar y pryd y dylid cynnal astudiaeth i archwilio dulliau dysgu a datblygu sy'n wahanol i'r trefniadau cwricwlwm presennol ar gyfer plant pum mlwydd oed mewn ysgolion. Byddwn yn disgwyl i Jane Davidson fwrw ymlaen â hyn gan adeiladu ar yr argymhellion yn yr adroddiad hwn ar gyfer y ddarpariaeth i blant teirblwydd. Ni ddylem ddiystyru'r ddarpariaeth bresennol i blant pedair oed, llawer ohonynt eisoes yn yr ysgol. Dylid adolygu'r ddarpariaeth ar gyfer y plant hyn er mwyn sicrhau ei bod yn cydweddu â'r ddarpariaeth a ragwelir ar gyfer plant teirblwydd yn y strategaeth hon.

Bydd rhoi'r strategaeth hon ar waith yn her, ond mae'n rhaid i ni ymateb i'r her honno. Os na wnawn hynny, byddwn yn bradychu'n plant a thrwy hynny'n tanseilio'n dyfodol.



**Cynog Dafis AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Pennod 1** | **2** |
| Cefndir yr Adroddiad | |
| **Pennod 2** | **4** |
| Ystyriaeth ac Argymhellion y Pwyllgor | |
| **Pennod 3** | **11** |
| Ariannu | |
| **Pennod 4** | **12** |
| Monitro a Gwerthuso | |
| **Pennod 5** | **13** |
| Casgliad | |
| **Atodiad** | **14** |

# Cyflwyniad

Sefydlwyd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 9. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys addysg a dysgu gydol oes, ac ymysg y cyfrifoldebau mae'r cwricwlwm cenedlaethol a chymwysterau, pob agwedd ar weinyddu a threfnu ysgolion, addysg uwch ac addysg bellach, polisïau cyflogaeth gyda'r pwyslais ar yr ochr gyflenwi, gan gynnwys y Fargen Newydd a gwaith y gwasanaeth cyflogi, y gwasanaeth gyrfaoedd a hyfforddiant sy'n ymwneud â gwaith. Etifeddodd y Pwyllgor yr adolygiad polisi hwn gan y Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar ym mis Tachwedd 2000.

Jane Davidson AC yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y maes hwn.

**Aelodau'r Pwyllgor yw:**

| | | |
|---|---|---|
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Cynog Dafis (Cadeirydd) | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson (Gweinidog y Cynulliad) | Llafur | Pontypridd |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Christine Humphreys | Democratiaid Rhyddfrydol | Gogledd Cymru |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |

# Pennod 1: Cefndir yr Adroddiad

### Cylch Gwaith yr Adolygiad Polisi

- Ystyried patrwm presennol y ddarpariaeth addysgol i blant teirblwydd;
- Asesu a fyddai ehangu'r ddarpariaeth o fudd i'r plant o ran eu haddysg a'u datblygiad;
- Asesu costau'r fath ehangiad, a fyddai'n rhoi baich newydd ar ysgwyddau'r awdurdodau lleol a byddai angen cydnabod hyn wrth eu cyllido;
- Asesu effaith yr ehangiad ar allu cylchoedd chwarae a darparwyr preifat i ddarparu gofal i blant o dan oedran ysgol gorfodol; a
- Gwneud argymhellion i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes o ran polisi at y dyfodol.

### Yr Adroddiad Interim

Cyflwynodd y Pwyllgor Addysg Cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar adroddiad interim i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 4 Ebrill 2000. Gellir gweld yr adroddiad hwn yn www.cymru.gov.uk. Roedd yr adroddiad interim yn ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd, ar lafar ac yn ysgrifenedig, ac arweiniodd at y casgliad bod y pwyllgor yn dymuno penodi ymgynghorydd arbenigol i werthuso'r wybodaeth ac i gynghori'r Pwyllgor yn ei ystyriaethau.

### Yr Ymgynghorydd Arbenigol

Penodwyd Mrs Margaret Hanney yn Ymgynghorydd Arbenigol i'r Pwyllgor gyda chyfrifoldeb dros ystyried canlyniad yr ymatebion i'r ymgynghori ac ystyried arferion da yng Nghymru a ledled y byd wrth gynghori'r Pwyllgor. Mae Mrs Hanney yn gweithio fel Uwch Ddarlithydd Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (UWIC).

### Adroddiad yr Ymgynghorydd Arbenigol

Cyflwynodd Mrs Hanney ei hadroddiad cychwynnol i'r Pwyllgor Addysg Cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar ym mis Mehefin 2000. Gellir gweld yr adroddiad yn www.cymru.gov.uk. Roedd ei hadroddiad yn ystyried y sefyllfa yng Nghymru ar hyn o bryd, pa fath o ddarpariaeth fyddai orau i blant teirblwydd, pam bod angen newid pethau, sut y gellid datblygu darpariaeth y blynyddoedd cynnar yng Nghymru er mwyn bod yn esiampl o arfer gorau ledled y byd, goblygiadau ymestyn y ddarpariaeth a'r ffordd ymlaen. Roedd yn cynnig dau fath o ddarpariaeth a nifer o argymhellion manwl ar y goblygiadau staffio, hyfforddiant a chymwysterau, y cwricwlwm, isadeiledd, cydlynu a monitro, a gweithredu yn yr awdurdodau lleol.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad hwn ac fe'i trawyd gan ehangder a manylder y dadansoddi. Derbyniwyd cynnwys yr adroddiad yn gyffredinol, ond teimlai'r Pwyllgor y dylid ymgynghori â budd-ddeiliaid darpariaeth y blynyddoedd cynnar i blant teirblwydd ynghylch manylion yr argymhellion.

## Ymgynghori ar yr Adroddiad

Ymgynghorwyd â'r sawl a oedd wedi cyfrannu at drafodaethau blaenorol y Pwyllgor ac eraill a oedd wedi dangos diddordeb wrth i'r Pwyllgor ystyried y mater.

Dadansoddodd Mrs Hanney yr ymatebion i'r broses ymgynghori yn ei hadroddiad cychwynnol a lluniodd adroddiad i'r Pwyllgor yn crynhoi'r ymatebion ac yn cyflwyno ei chyngor a'i hargymhellion terfynol i'r Pwyllgor. Mae copi o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Pwyllgor yn www.cymru.gov.uk ar dudalen y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

## Egwyddorion y dylid seilio'r ddarpariaeth arnynt

Cytunodd y Pwyllgor Addysg Cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar ar gyfres o egwyddorion a ddylai lunio patrwm unrhyw ddarpariaeth estynedig yn y blynyddoedd cynnar yn y dyfodol. Nodwyd yr egwyddorion yn adroddiad interim y Pwyllgor hwnnw i'r Cyfarfod Llawn, a chymeradwywyd yr adroddiad. Yr egwyddorion hyn oedd sail cyngor yr Ymgynghorydd Arbenigol i'r Pwyllgor a sail ei hargymhellion.

Mae'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol oes wedi cadarnhau'r egwyddorion hyn ac maent wrth wraidd yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn. Mae'r egwyddorion yn nodi y dylai darpariaeth y blynyddoedd cynnar:

- ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer dysgu a chyflawni yn y dyfodol drwy gyfrwng cwricwlwm priodol sy'n datblygu ac sy'n cyd-fynd ag anghenion a diddordebau penodol y plentyn;
- sicrhau cydraddoldeb darpariaeth o ran cyfle addysgol i bawb er mwyn cyflawni potensial a chaniatáu iddynt chwarae rhan lawn yn y gymdeithas;
- darparu gofal cyflawn trwy ddatblygu partneriaethau rhwng rhieni, teuluoedd, gofalwyr plant, meithrinfeydd, cylchoedd chwarae ac ysgolion yn y sectorau cynaliedig a'r rhai na chynhelir; a
- sicrhau bod darpariaeth addysg gynnar yn cael ei thywys a'i meithrin gan addysgwyr blynyddoedd cynnar â chymwysterau priodol sy'n darparu gofal yn ogystal ag addysgu.

# Pennod 2: Ystyriaeth ac Argymhellion y Pwyllgor

Cytunodd y Pwyllgor bod anghenion y plentyn yn ganolog i'w drafodaethau ac i unrhyw argymhellion a wneid ganddo. Roedd hyn yn holl bwysig, a pha bynnag ddarpariaeth y penderfynid arni yn derfynol, roedd yn hanfodol bod anghenion y plentyn yn ganolog i unrhyw benderfyniad.

Cyn ystyried argymhellion Mrs Hanney yn fanwl, nododd y Pwyllgor bod diffyg gwybodaeth ystadegol gadarn ynghylch lefel bresennol y ddarpariaeth ar gyfer plant teirblwydd ym mhob amgylchedd yng Nghymru. Roedd hyn, yn ogystal â'r diffyg gwybodaeth ynghylch y galw posibl, yn golygu nad oedd yn bosibl rhoi amcangyfrif manwl o faint y gwaith datblygu sy'n wynebu Cymru. **Mae'n awgrymu felly y dylai'r Gweinidog gomisiynu arolwg o lefel bresennol y ddarpariaeth ac amcangyfrifon o'r galw yn y dyfodol yn sail i anghenion cynllunio a datblygu a goblygiadau costau.** Bydd angen i'r archwiliad fod yn eang iawn ac ystyried materion megis dewis rhieni, amddifadedd cymdeithasol a gwledigrwydd ymysg materion eraill. Mae hyn yn waith holl bwysig, ac yn rhan allweddol o nifer o benderfyniadau, ac felly cytunodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr 2000 i ofyn i'r Gweinidog ddechrau ar yr archwiliad cyn gynted ag y bo modd gyda'r bwriad y bydd yr wybodaeth ar gael erbyn mis Mai 2001.


Roedd adroddiad terfynol Mrs Hanney yn cynnwys tua 39 o argymhellion wedi eu trefnu mewn meysydd gwahanol ond allweddol yr oedd angen eu datblygu er mwyn cynnig darpariaeth o safon uchel yn y blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Bydd y dasg o gyflawni hyn yn enfawr, **felly mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried sefydlu Panel Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar i roi cyngor iddi ar ddatblygu'r strategaeth a'r cynllun gweithredu ar ei chyfer**. Dylai'r panel ymgynghorol gynnwys cyrff ac unigolion sy'n arbenigo yn holl feysydd addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Nid yw'r Pwyllgor yn rhagweld y bydd gan y panel ymgynghorol rôl y tu hwnt i dair blynedd gyntaf y strategaeth. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Gweinidog i ddechrau ar y gwaith o sefydlu'r panel ymgynghorol er mwyn iddo fod yn barod i'w chynghori pan dderbynnir canlyniadau'r archwiliad ym mis Mai 2001. Wrth gynghori'r Gweinidog, dylid gwahodd y panel ymgynghorol i ddarparu cyngor ynghylch rolau'r holl sectorau er mwyn gweithio mewn partneriaeth wirioneddol wrth ddarparu ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Dylai'r Gweinidog gyflwyno'r adroddiad hwn gerbron y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes erbyn haf 2001.

### Isadeiledd y Ddarpariaeth

Cynigiodd Mrs Hanney ddau fodel posibl i'w datblygu, a chanlyniad yr ymgynghori oedd bod cefnogaeth ysgubol ar gyfer Model 1.

**Model 1 ADDYSG A GOFAL PLANT BLYNYDDOEDD CYNNAR**




Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r model hwn oherwydd yr oedd o'r farn y gallai anghenion y plentyn a dewis i rieni gael eu cyflwyno orau trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Nododd fod Partneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant eisoes yn gwneud cyfraniad gwerthfawr a chytunodd y dylid adeiladu ar hyn.

Yn adroddiad cychwynnol Mrs Hanney trafodwyd datblygu Canolfannau Blynyddoedd Cynnar integredig a fyddai'n gallu uno'r elfennau gofal ac addysg yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar. Roedd yr aelodau o'r farn y dylai'r canolfannau hyn ddod yn ganolfannau rhagoriaeth ac y dylid eu defnyddio i gynorthwyo darparwyr ac amgylcheddau eraill. Nodwyd y posibilrwydd o gyllido'r canolfannau hyn gyda chyllid Ewropeaidd a thrwy ddefnyddio'r gwahanol fathau o gyllid ar gyfer gofal plant ac addysg a ddarperir eisoes gan y Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae angen ystyried nifer a lleoliad y canolfannau hyn ymhellach.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid mabwysiadu'r model partneriaeth ar gyfer Addysg a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar ac y dylid helpu awdurdodau addysg lleol i greu Canolfannau Blynyddoedd Cynnar integredig.**

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod, trwy wneud yr argymhelliad hwn, bod diffyg data gwirioneddol ynghylch cost rhoi Model 1 a'r canolfannau integredig ar waith. **Mae'n argymell felly y dylid gwahodd awdurdodau addysg lleol a Phartneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i gyflwyno cynlluniau ar gyfer datblygu'r isadeiledd a welir ym Model 1 gyda manylion y costau o ran darpariaeth a gwariant cyfalaf.**

Treuliodd y Pwyllgor gryn amser yn ystyried yr oedran priodol ar gyfer cynnig darpariaeth am ddim i blentyn. Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau ar hyn a chlywodd y Pwyllgor gyflwyniadau ar lafar ar

y pwnc hefyd. Wedi ystyried yr holl wybodaeth, cyngor Mrs Hanney i'r Pwyllgor oedd mai'r ddarpariaeth fwyaf priodol a fyddai'n rhoi'r budd mwyaf i'r plentyn fyddai darparu addysg hanner amser am ddim mewn amgylchedd cymeradwy i bob plentyn o'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn dair oed. **Mae'r Pwyllgor yn derbyn y cyngor hwn ac yn argymell y dylid creu strategaeth hirdymor i ddarparu addysg hanner amser am ddim mewn amgylchedd cymeradwy i bob plentyn o'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn dair oed**.

Daeth i'r casgliad hefyd y dylai dewis rhieni chwarae rhan bwysig wrth bennu'r amgylchedd gorau ar gyfer eu plentyn, ond roedd yn cydnabod bod angen i awdurdodau addysg lleol a Phartneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant gynllunio'n strategol i ymestyn a chyflwyno darpariaeth blynyddoedd cynnar yn eu hardaloedd.

Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod lefel y ddarpariaeth ar gyfer plant teirblwydd yng Nghymru yn amrywio'n fawr am sawl rheswm, ac roedd y pwyllgor felly yn amharod i osod unrhyw darged ar gyfer cael darpariaeth 100% o fewn cyfnod penodol. **Yn lle hynny, mae'n argymell y dylai awdurdodau addysg lleol gynllunio er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth o leiaf 10% y flwyddyn hyd nes y ceir darpariaeth 100%**. Dylid gofyn iddynt ddarparu eu cynlluniau ar sail hyn. Roedd y Pwyllgor wedi nodi cyhoeddiad David Blunkett, Gweinidog Addysg a Chyflogaeth y Deyrnas Unedig, y byddai darpariaeth lawn ar gael ar gyfer pob plentyn teirblwydd yn Lloegr erbyn mis Medi 2004. Ni fyddai'r Pwyllgor yn dymuno gweld y dyddiad targed ar gyfer cynnig darpariaeth 100% yng Nghymru yn ymestyn y tu hwnt i fis Medi 2004.

Bydd Partneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddarparu addysg y blynyddoedd cynnar yn llwyddiannus a bydd yn rhaid iddynt gydweithio'n agos â'r Awdurdodau Addysg Lleol i ddatblygu'r ddarpariaeth, gosod safonau a sicrhau y cyrhaeddir y safonau hynny. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd y Partneriaethau hyn a'u perthynas â'r AALl. **Mae'n argymell felly bod y Cynulliad Cenedlaethol yn egluro rolau a chyfrifoldebau'r Partneriaethau a'r AALl**. Dylid adolygu aelodaeth y Partneriaethau presennol er mwyn sicrhau eu bod yn cynrychioli holl ddarparwyr ardaloedd yr awdurdodau ac er mwyn sicrhau na fydd un darparwr yn gryfach na'r lleill yn y bartneriaeth.

## Staffio

Bu llawer o drafod ar gymarebau priodol staff a phlant yn yr amgylcheddau hyn. Mynegwyd consensws yn y broses ymgynghori mai cymhareb o un oedolyn i 10 o blant fyddai'r safon dderbyniol. Mae'r Pwyllgor yn derbyn nad dyna'r gymhareb ar hyn o bryd ar gyfer plant pedair oed mewn dosbarthiadau derbyn. **Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai awdurdodau addysg lleol barhau i adolygu cymarebau staff mewn dosbarthiadau oedran cymysg megis dosbarthiadau derbyn a dangos bod yr amgylcheddau hyn yn bodloni anghenion pob plentyn. Wrth bennu cymarebau dylai awdurdodau addysg lleol geisio cyflogi cynorthwywyr cymwysedig i helpu athrawon blynyddoedd cynnar**.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod rôl y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Arolygiaeth Safonau Gofal o ran rheoleiddio a monitro safonau gofal dydd i blant o dan wyth oed. Dylid gofyn i'r panel ymgynghorol ystyried cymarebau staffio a'r cyfleoedd i'r rhain fod yn gydnaws ar draws y sectorau gofal plant ac addysg a gwneud sylwadau ar y broses ymgynghori sydd ar y gweill ynghylch cyflwyno rheoliadau a safonau cenedlaethol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Er mwyn cyflwyno'r safon angenrheidiol o fewnbwn addysgol a fydd yn bodloni'r meincnodau yn fframwaith Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru 'Canlyniadau Dysgu Dymunol' **argymhellir y dylid cyflogi athro/athrawes blynyddoedd cynnar cymwysedig i weithio ym mhob amgylchedd cymeradwy am 10% o'r wythnos**. Dylid ystyried mai dyma leiafswm yr ymrwymiad amser sydd ei angen.

## Hyfforddiant a Chymwysterau

Un o'r meysydd yr oedd adroddiad cychwynnol Margaret Hanney yn nodi bod angen ei wella oedd hyfforddiant y blynyddoedd cynnar ar gyfer athrawon, y gwahaniaeth rhwng y cymwysterau a'r hyfforddiant ar gyfer staff mewn amgylcheddau blynyddoedd cynnar a'r diffyg cydlynu hyfforddiant ymddangosiadol ledled Cymru. Nodwyd yn benodol bod angen mwy o gyfleoedd hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer athrawon a staff y blynyddoedd cynnar. **Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid annog cynlluniau hyfforddi cymeradwy i ddenu myfyrwyr i hyfforddi'n athrawon blynyddoedd cynnar a staff cymwysedig drwy gyfrwng y Gymraeg** er mwyn sicrhau y bydd digon o staff cymwysedig i fodloni'r galw cynyddol o du rhieni am ddarpariaeth Gymraeg.

Er mwyn sicrhau bod addysg blynyddoedd cynnar yn cael ei darparu'n broffesiynol mae angen gwella'r ffordd y mae'r hyfforddiant yn cael ei gyflwyno, ac ad-drefnu'r fframwaith cymwysterau. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr hyn a gyflawnodd ACCAC yn y maes hwn eisoes.

**Argymhellir y dylid gofyn i ACCAC gwblhau ei waith ar ei fframwaith cymwysterau ar gyfer y blynyddoedd cynnar a'i ymestyn er mwyn cynnwys dilyniant uwchlaw lefel 4 NVQ/VRQ hyd at lefel gradd a gradd uwch. Gallai hyn fod yn sylfaen i strwythur hyfforddi clir ledled pob sector blynyddoedd cynnar a chaniatáu i bobl fynd yn eu blaenau i'r lefelau ucha**f. Bydd yn rhaid i anghenion hyfforddi yn y dyfodol hefyd adlewyrchu'r rheoliadau diwygiedig a'r safonau gofal dydd cenedlaethol a gyflwynir o dan y Ddeddf Safonau Gofal.

**Argymhellir y dylid annog sefydliadau addysg uwch i ddatblygu cyrsiau mewn swydd sy'n cynnig hyfforddiant blynyddoedd cynnar arbenigol ar lefel gradd a gradd uwch.**

**Argymhellir y dylid ymestyn cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon i alluogi athrawon dan hyfforddiant i wneud astudiaethau ychwanegol uwch yn y blynyddoedd cynnar fel maes arbenigol.**

**Argymhellir y dylid annog pawb sy'n gweithio mewn amgylcheddau cymeradwy i ennill cymwysterau perthnasol derbyniol arweinwyr grwpiau (lefel 3 NVQ) neu gynorthwywyr (lefel 2 NVQ). Dylid annog datblygu cyrsiau hyfforddiant mewn swydd ar y cyd i'r holl staff**. Efallai y bydd darparwyr yn y sector nas cynhelir am ystyried manteision cyflwyno graddfa gyflogau er mwyn denu a chadw staff sydd wedi ennill y cymwysterau hyn.

Nododd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd bod diffyg hyfforddi a datblygu cydlynol yn wendid yn y system bresennol. **Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried sefydlu grŵp hyfforddiant blynyddoedd cynnar yn is-bwyllgor i'r panel ymgynghorol er mwyn nodi anghenion hyfforddi, pennu targedau a chyfrannu at ddatblygu Strategaeth Hyfforddi'r blynyddoedd cynnar yn unol â rheoliadau yn y dyfodol a safonau cenedlaethol**. Dylai'r grŵp hwn fod yn un gorchwyl a gorffen ac ni ddylai gymryd mwy na 12 mis i gwblhau ei waith.

**Er mwyn sicrhau bod yr awdurdodau addysg lleol yn gweithio mewn ffordd gydlynol a gweithio gyda'r Partneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant mae'r Pwyllgor yn argymell bod pob awdurdod addysg lleol yn penodi cydgysylltydd blynyddoedd cynnar a fydd yn gyfrifol am**

**fonitro a chefnogi hyfforddiant**. Mae'n bosibl bod y swydd honno eisoes yn bodoli mewn nifer o awdurdodau lleol, er nad o dan yr un enw efallai. Dylid ailddiffinio'r swyddi hyn a rhoi cyfrifoldeb clir i'r sawl sy'n gwneud y swydd dros gefnogi datblygiad y strategaeth yn eu hawdurdod lleol.

**Er mwyn helpu cydgysylltwyr yn eu gwaith hyfforddi ac er mwyn helpu staff sy'n cael eu hyfforddi argymhellir y dylid creu gwefan y blynyddoedd cynnar er mwyn ei gwneud yn haws cyfnewid gwybodaeth, cefnogi hyfforddiant a hybu datblygiadau newydd.** Mae'r Pwyllgor wrthi'n adolygu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn addysg **ac mae'n argymell y dylai'r wefan hon fod yn rhan o gylch gwaith datblygu'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu yng Nghymru.**

### Y Cwricwlwm

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad yn gynnar yn ei drafodaethau y dylid canolbwyntio yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar ar ddysgu drwy chwarae. Clywodd lawer o dystiolaeth yn seiliedig ar waith ymchwil yn y Deyrnas Unedig a thramor bod dechrau addysg ffurfiol yn gynnar iawn, sef cyn chwe blwydd oed yn ôl y farn gyffredinol, yn cael effaith andwyol ar ddatblygiad y plentyn. Roedd y Pwyllgor yn awyddus felly i unrhyw gwricwlwm a dderbynnid adlewyrchu'n arbennig ei egwyddor gyntaf, sef y dylai dysgu yn y blynyddoedd i ddod fod yn seiliedig ar gwricwlwm datblygu priodol sy'n cyd-fynd ag anghenion a diddordebau neilltuol y plentyn.

Mae amgylcheddau a gynhelir a rhai nas cynhelir ac sy'n derbyn arian cyhoeddus o dan Bartneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn gweithio tuag at safonau cyffredin a bennir yn fframwaith ACCAC 'Canlyniadau Dysgu Dymunol' a luniwyd ym 1996 ac a adolygwyd ym 1999. Hoffai'r Pwyllgor ganmol y gwaith hwn gan ACCAC, ac fe'i cydnabuwyd hefyd gan nifer o'r rhai hynny yr ymgynghorwyd â hwy. **Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai pob amgylchedd cymeradwy orfod gweithio tuag at y meincnodau a'r safonau cyffredin yn 'Canlyniadau Dysgu Dymunol'.**

**Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell y dylai ACCAC baratoi canllawiau i'w hychwanegu at 'Canlyniadau Dysgu Dymunol' ar gyfer datblygu plant teirblwydd a phedair oed, ynghyd â deunydd enghreifftiol i helpu i gynllunio'r cwricwlwm ym mhob amgylchedd.**

Clywodd y Pwyllgor lawer am bwysigrwydd addysg greadigol a diwylliannol o safbwynt codi safonau addysgol drwy roi hwb i hunan-hyder a hunan-barch y plentyn. **Mae'n argymell felly bod ACCAC yn ystyried edrych eto ar drefn y chwe maes dysgu er mwyn rhoi blaenoriaeth i ddatblygiad personol a chymdeithasol y tro nesaf yr adolygir 'Canlyniadau Dysgu Dymunol'.** Dylid rhoi sylw hefyd i ddatblygiad emosiynol a materion yn ymwneud â rhywedd a phatrymau dysgu bechgyn a merched.

### Safonau Darparu ac Arolygu

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i batrwm y ddarpariaeth fod yn gynaliadwy a bod rhaid iddo hefyd fod o'r safon uchaf er mwyn rhoi'r dechrau gorau i blant ifanc. Er mwyn cael yr ansawdd gorau, credir bod angen rhoi sylw arbennig i'r system ar gyfer sicrhau ansawdd darparu ac arolygu.

Mae nifer o fecanweithiau a chyrff eisoes ar waith ac mae modd meithrin y gwaith da a wneir ganddynt. Bydd nifer o argymhellion ynghylch staffio, cymwysterau a hyfforddiant yn ategu safonau'r ddarpariaeth.

**Argymhellir gofyn i'r Arolygiaeth Safonau Gofal ac Estyn ddatblygu safonau cenedlaethol i hyrwyddo cysondeb yn y ddarpariaeth a'r broses arolygu.**

**Argymhellir y dylid pennu'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo amgylcheddau a darparwyr addysg i blant teirblwydd yn genedlaethol.**

**Argymhellir y dylai Partneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant gydweithio â'r awdurdodau addysg lleol i ystyried cynnwys darparwyr cymeradwy yn y Cynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.**

**Argymhellir y dylai'r Ymgynghorwyr Addysg Blynyddoedd Cynnar Cymru Gyfan arfaethedig fonitro addysg blynyddoedd cynnar yn genedlaethol a chyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r awdurdodau addysg lleol a Phartneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.** Byddai hyn yn cynorthwyo gwaith Estyn a'r Arolygiaeth Safonau Gofal a dylai sicrhau bod y ddarpariaeth yn fwy cyson ledled Cymru.

## Anghenion Addysgol Arbennig

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion plant a chanddynt anghenion arbennig o'r cychwyn cyntaf a bod y plant hynny'n cael yr un cyfleoedd â phob plentyn arall. Mae hefyd yn cydnabod bod nodi'r anghenion hynny ac ymyrryd yn gynnar yn flaenoriaeth ar gyfer plant a chanddynt anghenion addysgol arbennig. **Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid cynnwys anghenion plant a chanddynt anghenion addysgol arbennig wrth gynllunio'r ddarpariaeth.** Mae'n cydnabod y gallai hyn roi pwysau ychwanegol ar rai awdurdodau addysg lleol. Mae'r Pwyllgor yn deall bod drafft y Cod Ymarfer diwygiedig ar Nodi ac Asesu Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn cynnwys canllawiau penodol ynghylch darpariaeth AAA mewn amgylcheddau blynyddoedd cynnar. **Mae'n argymell y dylai Partneriaethau gymryd sylw o'r Cod Ymarfer wrth lunio'u cynlluniau blynyddoedd cynnar er mwyn nodi pa ddarpariaeth sydd ei hangen yn eu hawdurdodau a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny.** Byddai'r Pwyllgor hefyd yn dymuno i'r grwpiau a'r ymgynghorwyr anghenion addysgol arbennig barhau i gefnogi Partneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant wrth iddynt lunio eu cynlluniau.

## Addysg Gymraeg

Nid oedd cylch gwaith Margaret Hanney yn gofyn iddi ystyried darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar wahân i'r ddarpariaeth ar gyfer plant teirblwydd yn gyffredinol. Felly fe edrychodd ar y ddarpariaeth yn ei chyfanrwydd yn ei hadroddiad. Fe seiliodd ei hadroddiad ar y pedair egwyddor a gytunwyd gan y Pwyllgor ac y dylai'r egwyddorion hyn gael eu gweithredu yn gytbwys ar gyfer pob plentyn, boed y plentyn hwnnw'n derbyn y ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Penderfynodd y Pwyllgor yn ei adroddiad interim ei fod yn dymuno hybu darpariaeth ddwyieithog hyd at y safonau uchaf.

Derbyniodd y Pwyllgor a chytunodd â'r farn a fynegwyd yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig 'Childcare in Wales', a oedd yn nodi:

> *'Early years education is crucial to the future of the Welsh language.'*

Mynegwyd y safbwynt hwn yn gryf iawn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae'r Pwyllgor am atgyfnerthu ei farn na ddylai'r gwaith da a gyflawnwyd gan Fudiad Ysgolion Meithrin gael ei beryglu gan y strategaeth, ond y dylai mewn gwirionedd geisio adeiladu ar yr arferion da amlwg. Hoffai'r Pwyllgor petai Mudiad Ysgolion Meithrin yn parhau i chwarae rôl weithgar yn y Partneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, a dylanwadu ar bolisi a safonau o'r cychwyn cyntaf. Un o amcanion strategol allweddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw

creu cymdeithas ddwyieithog ac un o'r gofynion allweddol ar gyfer gwneud hynny yw darparu addysg blynyddoedd cynnar. Cred y Pwyllgor y dylid cefnogi rhieni yn eu dewis i addysgu eu plant yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg  ac y dylai'r ddarpariaeth fod yn rhan o'r strategaeth yn genedlaethol ac yn lleol.

Dylai hyfforddiant a chymwysterau fod ar gael i staff yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd yr archwiliad a argymhellwyd gan y Pwyllgor i ddarganfod faint o ddarpariaeth a gynigir ar hyn o bryd yn cynnwys yr holl ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid adolygu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer darpariaeth Gymraeg er mwyn sicrhau ei bod yn rhan o'r holl ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynnar i blant teirblwydd a'i bod yn rhan hanfodol o'r ddarpariaeth yn hytrach na'i bod ar yr ymylon. Bydd yr archwiliad yn darganfod beth yw lefel yr angen am ddarpariaeth Gymraeg a bydd yn rhoi data i awdurdodau addysg lleol er mwyn iddynt allu cynllunio'n strategol sut y bwriadant ateb y galw yn y dyfodol. **Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Gweinidog, yn dilyn canlyniad yr archwiliad ac ar ôl darganfod maint y galw yn y dyfodol, adolygu'r cyllid ar gyfer addysg Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar.**

# Pennod 3: Ariannu

Nododd y Pwyllgor na ellid pennu costau manwl heb ddata ar lefel bresennol y ddarpariaeth i blant teirblwydd yng Nghymru, sydd hefyd yn nodi'r amgylcheddau lle cynigir darpariaeth. Mae eisoes wedi argymell yn yr adroddiad hwn y dylid cynnal archwiliad o'r ddarpariaeth ac y dylid ystyried cynnal adolygiad o'r cyllid ar gyfer darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar.

Dylai'r wybodaeth hon ynghyd â chynlluniau manwl yr awdurdodau addysg lleol a Phartneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, sy'n cynnwys costau, roi sylfaen gadarn ar gyfer cyfrif costau a chynllunio'r cynnydd o 10% y flwyddyn a argymhellir. Mae Plant a Phobl Ifanc – Fframwaith ar gyfer Partneriaeth yn cynnig y dylid rhesymoli nifer o gynlluniau, er enghraifft Cychwyn Cadarn a'r Strategaeth Gofal Plant, a'r arian ar eu cyfer, yn un Gronfa Cefnogi Plant a Phobl Ifanc. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r cynnig hwn ac yn awgrymu y dylai awdurdodau addysg lleol a Phartneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, wrth ddarparu cynlluniau wedi'u costio, ystyried sut y gellid rhesymoli Cychwyn Cadarn a mentrau addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant i'w gwneud yn haws datblygu darpariaeth integredig i blant rhwng 0 a chwech oed.

Yn y gyllideb hon, **argymhellir y dylid neilltuo arian ar gyfer datblygiadau arloesol sy'n cynnwys gwasanaethau integredig y blynyddoedd cynnar. Dylid edrych hefyd ar bosibiliadau denu arian Ewropeaidd ar gyfer y datblygiadau hyn.**

Yng nghyswllt hyfforddiant, os ydym am sicrhau bod gennym ddigon o staff a chanddynt gymwysterau, mae'n bwysig rhoi help iddynt wneud asesiadau ar gyfer cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol. **Argymhellir y dylid ariannu hyn yn ganolog.**

Mae'r Pwyllgor wedi nodi bod y Gweinidog wedi cynnwys digon o arian ar gyfer 2001-2002 yn y gyllideb i gynnal y gwaith casglu data hwn. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael o fewn yr amser a bennwyd i fwydo cylch nesaf cyllideb y Cynulliad er mwyn gwneud cynlluniau priodol i fwrw ymlaen â'r strategaeth, yn y cronfeydd canolog ac yn y setliad refeniw llywodraeth leol.

# Pennod 4: Monitro a Gwerthuso

Er mwyn gallu monitro'r polisi hwn mae'r Pwyllgor am gael y wybodaeth a ganlyn:

- data'r archwiliad er mwyn gallu pennu gwaelodlin;
- cynllun gweithredu manwl gyda thargedau ac amserau penodol.

Yna, fel rhan o oruchwyliaeth flynyddol y Pwyllgor o wariant a pherfformiad, bydd yn cynnwys eitem ar gynnydd y cynllun gweithredu. Bydd y meysydd a fydd yn cael eu goruchwylio yn adlewyrchu'r targedau a'r meysydd allweddol a nodir yn yr adroddiad. Gallai'r Pwyllgor hefyd ofyn am sylwadau'r awdurdodau addysg lleol a Phartneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ynghylch syniadau pobl yn lleol am y ffordd y mae'r cynllun yn mynd rhagddo. Gofynnir hefyd i Estyn ac ACCAC am eu barn pan fyddant yn cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor yn ôl eu harfer.

Bydd y strategaeth yn darparu ar gyfer plant teirblwydd mewn amgylchedd addysg am y tro cyntaf yng Nghymru, ac felly efallai y bydd y Gweinidog am ystyried a ddylid cynnal astudiaeth ymchwil fanwl o'r cynllun. Gallai'r astudiaeth roi gwybodaeth ar sail tystiolaeth ynghylch effaith gyfamserol y polisi ar ddatblygiad plant o ran hyder, sgiliau ymchwiliol a sgiliau cyfathrebu, ymysg pethau eraill. Yn y tymor hir gallai edrych ar gyraeddiadau academaidd a galwedigaethol gan ystyried adroddiadau arolygu Estyn. Mae'n rhaid ystyried effaith gyd-destunol y polisi o safbwynt y ffordd y mae'n effeithio ar ddarpariaeth addysg i blant rhwng 0 a chwech oed a gallai astudiaeth o'r fath helpu'r dadansoddiad hwnnw. Gellid cymharu ag arferion gorau mewn mannau eraill er mwyn gallu meincnodi cynnydd yng Nghymru.

# Pennod 5: Casgliad

Bu hwn yn faes llawn her ond llawn boddhad hefyd i'r Pwyllgor. Mae effaith rhoi dechrau da i blant mewn bywyd yn amhrisiadwy. Mae'n bwysig bwrw ymlaen â'r Strategaeth hon yn adeiladol, a chynnwys pawb yn llawn. Mae rôl yr awdurdodau addysg lleol ar y cyd â Phartneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn hanfodol er mwyn gallu darparu'r Strategaeth yn llwyddiannus. Wrth edrych ar y patrymau cyflwyno gorau i Gymru bu'r Pwyllgor yn ystyried enghreifftiau o bob cwr o'r byd, ac fe'i trawyd gan yr hyn a glywodd am Seland Newydd a'r Eidal. Mae'n awyddus i sicrhau y bydd enw cystal ledled y byd cyn pen dim i'r ddarpariaeth yng Nghymru o ran ansawdd y ddarpariaeth a'r cwricwlwm.

Yr hyn a fydd yn profi llwyddiant y polisi yn y pen draw fydd y plant ifanc a fydd yn mynd drwy'r system ac a fydd yn dangos pwysigrwydd dechrau da mewn bywyd wrth iddynt fynd drwy'r broses addysgu. Gobaith y Pwyllgor yw y bydd y Gweinidog, drwy'r strategaeth hon, yn ystyried pa mor briodol yw'r oedran ysgol statudol i blant yng Nghymru ac yn edrych ar ddarpariaeth addysg fel continwwm o dair i 16 oed.

Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo ei adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ac yn gwahodd y Gweinidog i lunio cynllun gweithredu ar gyfer bwrw ymlaen â hyn o fewn yr amserau a nodir yn yr argymhellion.

**Rhagfyr 2000**

# ATODIAD

### Crynodeb o'r Argymhellion

- dylai'r Gweinidog gomisiynu arolwg o lefel bresennol y ddarpariaeth ac amcangyfrifon o'r galw yn y dyfodol yn sylfaen i gynllunio'r anghenion datblygu a'r costau; a

- dylai'r Gweinidog ystyried sefydlu Panel Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar i roi cyngor iddi ynghylch datblygu'r strategaeth a'r cynllun gweithredu ar ei chyfer.

### Isadeiledd a Modelau Datblygu

- dylid mabwysiadu'r model partneriaeth ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant a dylid helpu awdurdodau addysg lleol i greu canolfannau blynyddoedd cynnar integredig;

- dylid gwahodd awdurdodau addysg lleol a Phartneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i gyflwyno cynlluniau i ddatblygu'r isadeiledd a nodir ym Model 1 gyda manylion y costau o ran darpariaeth a gwariant cyfalaf;

- dylid llunio strategaeth hirdymor i geisio darparu addysg hanner amser am ddim i bob plentyn mewn amgylchedd cymeradwy o'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn dair oed;

- dylai awdurdodau addysg lleol gynyddu'r ddarpariaeth 10% y flwyddyn o leiaf hyd nes y ceir darpariaeth 100%; a

- dylai'r Cynulliad Cenedlaethol egluro rolau a chyfrifoldebau'r Partneriaethau a'r awdurdodau addysg lleol.

### Staffio

- dylai awdurdodau addysg lleol barhau i adolygu cymarebau staff mewn dosbarthiadau oedran cymysg megis dosbarthiadau derbyn a dangos bod yr amgylcheddau hyn yn bodloni anghenion pob plentyn. Wrth bennu cymarebau dylai awdurdodau addysg lleol geisio cyflogi cynorthwywyr cymwysedig i helpu athrawon blynyddoedd cynnar; a

- dylid cyflogi athro/athrawes blynyddoedd cynnar cymwysedig i weithio ym mhob amgylchedd cymeradwy am 10% o'r wythnos.

### Hyfforddiant a Chymwysterau

- dylid annog cynlluniau hyfforddi cymeradwy i ddenu myfyrwyr i hyfforddi fel athrawon y blynyddoedd cynnar a staff cymwysedig drwy gyfrwng y Gymraeg;

- dylid gofyn i ACCAC gwblhau eu gwaith a'i ymestyn i gynnwys gwaith ar fframwaith cymwysterau'r blynyddoedd cynnar a fyddai'n caniatáu i bobl fynd y tu hwnt i lefel 4 NVQ/VRQ at lefel gradd a gradd uwch. Gallai hyn fod yn sylfaen i strwythur hyfforddi clir ym mhob un o'r sectorau'r blynyddoedd cynnar a chaniatáu i bobl fynd ymlaen i'r lefelau uchaf;

- dylid annog sefydliadau addysg uwch i ddatblygu cyrsiau mewn swydd sy'n cynnig hyfforddiant arbenigol yn y blynyddoedd cynnar at lefel gradd a gradd uwch;
- Dylid ymestyn cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon i alluogi athrawon dan hyfforddiant i wneud astudiaethau ychwanegol uwch yn y blynyddoedd cynnar fel maes arbenigol;
- dylid annog pob aelod o staff sy'n gweithio mewn amgylcheddau cymeradwy i ennill cymwysterau perthnasol derbyniol fel arweinwyr grŵp (lefel 3 NVQ) neu gynorthwywyr (lefel 2 NVQ). Dylid annog datblygiad cyrsiau hyfforddiant mewn swydd ar y cyd i bob aelod o staff;
- dylai'r Gweinidog ystyried sefydlu grŵp hyfforddi'r blynyddoedd cynnar fel is-bwyllgor o'r grwp ymgynghorol i nodi anghenion hyfforddi, gosod targedau a hybu datblygiad strategaeth hyfforddi'r blynyddoedd cynnar yn unol â rheoliadau yn y dyfodol a safonau cenedlaethol;
- er mwyn sicrhau cydlyniant ar lefel yr awdurdodau addysg lleol a gweithio gyda Phartneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, dylai pob awdurdod addysg lleol benodi cydgysylltydd blynyddoedd cynnar a fydd yn gyfrifol am fonitro a chefnogi hyfforddiant;
- er mwyn helpu'r cydgysylltwyr yn eu rôl mewn perthynas â hyfforddi a chefnogi staff sy'n derbyn hyfforddiant, dylid creu gwefan blynyddoedd cynnar i'w gwneud yn haws cyfnewid gwybodaeth, cefnogi hyfforddiant a hybu datblygiadau newydd; a
- dylid cynnwys y wefan hon yng nghylch gwaith datblygu'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu yng Nghymru.

**Y Cwricwlwm**

- dylai pob amgylchedd cymeradwy orfod gweithio tuag at safon gyffredin a meincnodau 'Canlyniadau Dysgu Dymunol';
- dylai ACCAC baratoi canllawiau i'w hychwanegu at 'Canlyniadau Dysgu Dymunol' ar gyfer datblygu plant tair a phedair oed, ynghyd â deunydd enghreifftiol i helpu i gynllunio'r cwricwlwm; a
- dylai ACCAC ystyried edrych eto ar drefn y chwe maes dysgu er mwyn rhoi blaenoriaeth i ddatblygiad personol a chymdeithasol y tro nesaf yr adolygir 'Canlyniadau Dysgu Dymunol'.

**Safonau Darparu ac Arolygu**

- dylid gofyn i'r Arolygiaeth Safonau Gofal ac Estyn ddatblygu safonau cenedlaethol i hybu cysondeb yn safonau'r ddarpariaeth a'r broses arolygu;
- dylid pennu meini prawf cenedlaethol ar gyfer cymeradwyo amgylcheddau cymwys a'r rheiny sy'n darparu addysg i blant teirblwydd;
- dylai Partneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant weithio gyda'r awdurdodau addysg lleol i ystyried cynnwys darparwyr cymeradwy yn y Cynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant; a

- dylai Ymgynghorwyr Blynyddoedd Cynnar Cymru Gyfan fonitro darpariaeth addysg blynyddoedd cynnar yn genedlaethol a rhoi adroddiadau rheolaidd i'r awdurdodau addysg lleol a Phartneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

**Anghenion Addysgol Arbennig**

- wrth gynllunio darpariaeth dylid cynnwys anghenion plant ag anghenion addysgol arbennig; ac

- wrth lunio'u cynlluniau blynyddoedd cynnar, dylai Partneriaethau gymryd sylw o'r Cod Ymarfer er mwyn nodi pa ddarpariaeth sydd ei hangen yn eu hardaloedd a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny.

**Addysg Gymraeg**

- dylai'r Gweinidog adolygu'r cyllid ar gyfer darpariaeth addysg Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar yn dilyn canlyniad yr archwiliad ac ar ôl darganfod maint y galw yn y dyfodol.

**Ariannu**

- dylid gallu ariannu datblygiadau arloesol sy'n cynnwys gwasanaethau integredig yn y blynyddoedd cynnar. Dylid edrych hefyd ar bosibiliadau denu arian Ewropeaidd ar gyfer datblygiadau o'r fath; a

- dylid darparu arian yn ganolog er mwyn helpu staff i wneud asesiadau ar gyfer cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol.